**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| F M Gordon | L R Jones | Y V Jardine |
| S Pritchard | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Kelly Small | Pennaeth yr Uned Cyllid a Gwybodaeth |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Kate Phillips | Rheolwr yr Uned Ysgolion a Llywodraethwyr |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins a/ac S Joy

---

## 4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023 fel cofnod cywir.

## 6 Cylch gorchwyl.

Darparwyd cylch gorchwyl y Pwyllgorau Trawsnewid Gwasanaethau 'er gwybodaeth'.

## 7 Trafodaethau am y Cynllun Gwaith

Datganodd y Cadeirydd ei fod ef, Aelod y Cabinet a'r Swyddogion wedi cwrdd cyn y cyfarfod i drafod pynciau posib a bod yr wybodaeth wedi'i chylchredeg i'r aelodau cyn y pwyllgor er gwybodaeth gefndir.

Dywedodd y bydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar y ddau nod trawsnewidiol a'r rhain fydd y pynciau i'w harchwilio ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfan.

- Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Yr ysgolion cywir yn y lleoedd cywir.

Amlinellodd Helen Morgan-Rees fod y 2 bwnc uchod yn rhan o Gynllun Corfforaethol yr awdurdod i'w hystyried dros gyfnod tymor canolig i hir.

Cyfeiriodd at gefndir a hanes y ddarpariaeth ar hyn o bryd, a'r sail resymegol a ddatblygodd y gwasanaethau dros nifer o flynyddoedd.

Yna rhoddodd Kate Phillips drosolwg manwl ar lafar a oedd yn ymwneud â'r rhaglen bosib ar gyfer Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn gynwysedig yn y trosolwg roedd y meysydd canlynol:

- Lefel y ddarpariaeth bresennol o fewn DASA;
- Sefydliad hanesyddol y 34 o gyfleusterau addysgu arbenigol presennol (CAA) mewn gwahanol leoliadau ar draws y ddinas;
- Ar hyn o bryd mae CAAau yn cael eu cynnal mewn ysgolion unigol ac maent yn darparu darpariaeth o safon lle cânt eu gwerthfawrogi gan y bobl ifanc, y rhieni, yr ysgolion a'r awdurdod lleol;
- Mae'r ddarpariaeth bresennol a'r cyd-destun hanesyddol yn golygu nad yw pob lleoliad yn addas, sy'n golygu bod yn rhaid i rai disgyblion deithio i gyrraedd yr ysgol;
- Yr effaith ar blant sy'n gorfod teithio i'r ysgol a'r goblygiadau iddynt, fel diffyg gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a meithrin cyfeillgarwch â ffrindiau o'r ysgol sy'n byw mewn gwahanol gymunedau;
- Newidiadau i anghenion a phroblemau plant dros y blynyddoedd, fel y lleihad o ran yr angen am therapi lleferydd ac iaith er enghraifft, wrth i'r galw am y gwasanaethau awtistiaeth ac ADHD gynyddu'n sylweddol;
- Yr angen i ddiwygio a diweddaru ein darpariaeth a'n gwasanaethau yn unol â hyn;
- Goblygiadau sylweddol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar y gwasanaeth a'r hyn a ddarperir gan yr adran;
- Gwaith parhaus a datblygu rhaglen trawsnewid sy'n seiliedig ar ein darpariaeth arbenigol a helpu ysgolion wrth gynnal y ddarpariaeth bresennol mewn ysgolion;
- Manylwyd ar elfennau ymgysylltu, mewnbwn a chyfranogaeth asiantaethau partner fel y bwrdd iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn y rhaglen trawsnewid.

Rhoddodd Kelly Small hefyd gyflwyniad ar lafar a oedd yn ymwneud â'r problemau o ran yr ysgolion cywir yn y mannau cywir.

Amlinellodd y canlynol yn ystod ei chyflwyniad:

- Y ddarpariaeth bresennol yn Abertawe o 77 ysgol gynradd, 14 ysgol gyfun a 2 ysgol arbennig;
- Cyfradd genedigaethau yn gostwng yn DASA, ond mae cynnydd o ran mewnfudo;
- Dyletswydd i fonitro ein darpariaeth bresennol ac adolygu'r lleoedd sydd ar gael;
- Tuedd tuag at addysg cyfrwng Cymraeg;
- Cyflwr y stoc adeiladau ar hyn o bryd a gwaith cynnal a chadw a chyfalaf parhaus;
- Moderneiddio ac adeiladu ysgolion newydd ac effaith hyn ar ddysgu, newid o ran ysgolion cynradd cyflawn a chau ysgolion llai;
- Cynnydd o ran costau a darpariaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol;
- ffocws Llywodraeth Cymru ar ysgolion cymunedol;
- Amcanestyniadau disgyblion a mewnbwn gan staff iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol;
- Dim digon o staff i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y ddinas.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau niferus a gwnaethant sylwadau ynglŷn â'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ddau gyflwyniad ac ymatebodd y Swyddogion, y Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet yn briodol iddynt.

**Penderfynwyd** y dylid adolygu'r ddau faes a amlinellwyd uchod a'u trafod yn ystod y flwyddyn ddinesig gyfredol, a bydd y ddau bwnc yn cael eu cynnwys ar agendâu cyfarfodydd bob yn ail.

## 8 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd y Dyfodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiadau cyfarfodydd y dyfodol a ddarparwyd yn y pecyn agenda ac awgrymodd fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol yn parhau i gael eu cynnal am 4pm.

**Penderfynwyd** y dylid cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor y dyfodol am 4pm.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.57 pm

**Cadeirydd**